

# DANGOSFWRDD DOFEDNOD

## Hydref 2019 – Medi 2020



% y gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Dofednod:

**21%** MAE **361** O FUSNESAU SYDD WEDI COFRESTRU  
 O WEITHGAREDD DOFEDNOD gyda Cyswllt Ffermio yn dod o'r sector Dofednod.

### Y Rhwydwaith Arddangos

#### Safle Arddangos Wern

Mae'r Wern yn fferm gymysg 486 hectar (ha). Sefydlwyd y fenter ddofednod yn 2011, ac maent yn cadw 32,000 o ieir Bovan Brown ar system offer aml-haen.

#### Prosiect 1 – Lleihau nifer yr wyau o ansawdd eilradd (a gwblhawyd ym mis Mawrth 2020)



Bu'r prosiect yn archwilio sut y gellir lleihau nifer yr wyau eilradd a gynhyrchir. Roedd y ddyfais a ddefnyddiwyd yn cynnwys nifer o synwryddion a oedd yn mesur y grym y mae wyau'n ei brofi wrth eu cludo o'r blwch nythu i'r hambwrdd.

Llwyddodd yr arbrawf i ddangos bod modd gwneud arbedion ariannol sylweddol drwy ddefnyddio dyfais i ganfod yr ardaloedd lle mae'r wyau'n derbyn y grym mwyaf, a gwneud addasiadau syml yn yr ardaloedd hyn.

Roedd yr addasiadau'n cynnwys tynhau beltiau cludo, addasu graddiant, mewnosod rhwystrau plastig ar bwyntiau trosglwyddo penodol ac arafu cyflymder y belt wyau.

Yn seiliedig ar bris cyfartalog o 86c y dwsin ar gyfer wyau wedi'u graddio, byddai 1% o wyau eilradd yn cyfateb â 0.655c y dwsin. Os bydd pob aderyn yn dodwy 26 dwsin o wyau, mae 1% o wyau eilradd yn cyfateb â 17c yr aderyn, ac mewn uned gyda 32,000 o adar, byddai hynny'n golygu arbediad o £5,449.60 fesul haid. Byddai cynhyrchwyr wyau gyda dros 5% o'r wyau'n cael eu graddi'n eilradd yn gallu elwa'n benodol o ddefnyddio dyfais gel hon.

Am ragor o fanylion am y prosiect hwn, cliciwch [yma](#).

#### Prosiect 2 – Rheoli ansawdd aer, gwasarn a dŵr i wella iechyd dofednod a chynyddu cynhyrchiant (dechreuodd y prosiect ym mis Mai 2020, ac mae'n dal i fynd yn ei flaen)

Nod yr ail brosiect yw archwilio'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer ieir dodwy wyau maes, h.y. aer, gwasarn a dŵr i wella iechyd adar, gan wella cynhyrchiant a phroffidoldeb yn y pen draw. Mae dull cyfunol yn cael ei ddefnyddio i leihau baich bacteria gan ddefnyddio bacteria nad yw'n heintus i wella ansawdd aer, gwasarn a dŵr a chyflwyno perlysiâu a mwynau i ddiect yr adar er mwyn eu galluogi i reoli haint gwiddon coch mewn modd naturiol a gwella ansawdd plisgyn yr wyau. Ym mis Mai 2020, gosodwyd system synwryddion LoRaWAN ynghyd â dangosfwrdd i fesur amonia, carbon deuocsid, lleithder a thymheredd yn yr adeiladau. Bydd y rhain yn galluogi'r ffermwyr i addasu'r ffordd y mae'n gweithredu'r cynllun rheoli mewn modd priodol.

Rhwng 26/06/20 a 21/07/20, mesurwyd lefel amonia rhwng 10-15ppm. Un o nodau'r prosiect yw lleihau'r lefel hon i 5ppm leiaf ymysg yr haid newydd gyda'r system awtomataidd. Cynhaliwyd profion bacteria yng nghanol mis Gorffennaf ar fferm Wern a oedd yn ein galluogi i weld pa facteria oedd yn dominyddu yn y siediau ar yr adeg honno, ynghyd â rhoi darlenniad o lefelau amonia. Gadawodd yr haid y sied ar 24/08/20 a chyflwynwyd yr haid newydd ar 10/09/20.



Glanhaodd Osian y beltiau yn y ddwy sied ar 25/09/20, ac unwaith eto ar 2/10/20. O ganlyniad, gwelwyd gostyngiad yn y lefelau amonia i lai na 5ppm, gan brofi pwysigrwydd gwaredu ysgarthion yn rheolaidd o'r siediau. Y camau nesaf yw trin yr amgylchedd yn unol â'r canlyniadau a gasglwyd gan y synwryddion.

### EIP Cymru

#### Lleihau allyriadau amonia mewn systemau cynhyrchu brwyliaid



#### Canolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Cyhoeddwyd yr erthyglau technegol canlynol gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth:

ISADEILEDD AMAETHYDDOL:  
 RHAN 1 EFFEITHIAU  
 HINSAWDD

NWYDDAU CYHOEDDUS A  
 FFERMIO

ISADEILEDD AMAETHYDDOL:  
 RHAN 2 ADDASIADAU A  
 MESURAU LLINIARU  
 HINSAWDD

RHAGOLYGN  
 TECHNOLEGOL AR GYFER  
 CYNHYRCHEDD UNEDA  
 DOFEDNOD DODWY

#### Gweminarau

Cynhaliwyd **27** GWEMINAR gyda **3,869** OWYLLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

#### Diweddariad ar y farchnad moch a dofednod

Bu Nathan Ward o Kantar yn trafod gwybodaeth a mewnweliad, yn edrych yn benodol ar gynnyrch yn ymwneud â'r diwydiant moch a dofednod.

#### Yn Fyw o'r Fferm Arddangos – Wern

Yn ystod y digwyddiad byw ar safle arddangos dofednod fferm Wern, bu ystod o arbenigwyr yn trafod y canlynol:

- Sut i adnabod manau sy'n profi grym sylweddol a buddion eraill yn gysylltiedig â lleihau nifer yr wyau eilradd a gynhyrchir.
- Y mesurau sy'n cael eu rhoi ar waithar fferm Wern i fonitro ansawdd aer, gwasarn a dŵr.
- Sut y byddwn yn addasu'r amgylchedd i wella iechyd a chynhyrchiant adar.



## Grwpiau Trafod



CYNHALIWYD

12

CYFARFOD GRŴP  
TRAFOD DOFEDNOD

gyda

88  
O FYNICHWYR

Bu'r arbenigwr ynni, Chris Brooks, o gwmni Westflight Ltd, yn ymweld â Grŵp Trafod Dofednod Gogledd Cymru i helpu'r aelodau i ddeall eu defnydd o drydan ac i edrych ar ffyrdd o leihau costau er mwyn gwella effeithlonrwydd.

Mae costau trydan wedi cynyddu'n sylweddol fel y mae'r ffigyrau isod yn dangos.

1990 – Cost Trydan £0.06/ kWh

2000 – Cost Trydan £0.10/ kWh

2019 – Cost Trydan £0.17/ kWh

Mae hyn yn gynydd o 70% mewn 29 mlynedd. Gofynnwyd y cwestiwn canlynol i'r grŵp – a fydd prisiau eich wyau yn cynyddu ar yr un gyfradd?

Daeth pob aelod o'r grŵp â chopi o'u bil cyfleustodau diweddaraf i'r cyfarfod, a bu Chris yn trafod y bil er mwyn amlygu'r hyn y dylai aelodau fod yn chwilio amdano.

Mae dadansoddiad o fil fel arfer yn trafod y canlynol:

- Cost Cyfanwerthu 40.09%
- Costau Rhwydwaith 25.16%
- Costau Cymdeithasol ac Amgylcheddol 13%
- Costau Uniongyrchol Eraill 0.65%
- Costau Gweithredu'r Cyflenwr 15.4%
- Elw'r Cyflenwr 0.94%
- TAW 1.76%

Anogwyd aelodau i edrych ar dariffau dydd a nos i weld a fyddai modd gwella effeithlonrwydd drwy ddefnyddio'r tariff is gyda'r nos. Trafodwyd yr amseroedd brig ar gyfer defnyddio trydan ymysg y grŵp, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gellid ei wneud er mwyn lleihau'r cynnodau brig.

Cyflwynodd Chris rai syniadau i'w hystyried:

- Pwy sy'n gyfrifol am brynu'r ynni ar eich fferm?
- Byddwch yn ofalus wrth ddefnyddio broceriaid, grwpiau prynu ac ati. Gwiriwch dros eich hun.
- Dewiswch ddau gyflenwr posibl a cheisiwch negodi.
- Cyfrifwch y gost wirioneddol fesul kWh.
- Gwiriwch adroddiadau'r mesurydd yn erbyn yr anfonebau.

Os byddwch chi'n ystyried y ffactorau uchod, byddai modd gwneud arbedion o ran effeithlonrwydd.

Roedd nifer o'r aelodau'n awyddus i ddatblygu gwybodaeth ynglŷn â'u defnydd ar eu daliadau eu hunain, a chytunwyd i gynnal clinigau ar y fferm i fonitro a meincodi ymhellach ymysg y grŵp.

## Agrigôp

29 CYFARFOD YN YMWNEUD  
Â DOFEDNOD



Dyma rai o'r enghreifftiau o themâu'r grwpiau:

Sefydlu menter  
brwyliad



Technoleg Amonia



Baw dofednod



Ieir a Covid



## Cymorthfeydd

Cynhaliwyd 118 Cymhorthfa



Roedd y prif bynciau'n cynnwys:

Marchnata ac  
Arallgyfeirio



Energy rev  
Adolygiad Ynni



Cynllunio



Olyniaeth



Rhoddodd y gymhorthfa adolygiad ynni gyfle i ni agor ein meddyliau i ystyried technolegau newydd ar gyfer cynhyrchu trydan yn y sector dofednod.

## Mentora

MAE GENNYM NI 4 MENTOR DOFEDNOD AR Y FFRAMWAITH



Cliciwch yma i weld  
proffil Helen



Cliciwch yma i weld  
proffil Malcolm



Cliciwch yma i weld  
proffil Mark



Cliciwch yma i weld  
proffil Sian

Mae 4% o'r rhai sy'n cael eu mentora yn derbyn cyngor yn ymwneud â materion dofednod (gallai hynny gynnwys newydd ddyfodiaid i'r sector).

Pynciau a drafodwyd:

Sefydlu sied  
ddofednod maes



Agweddau iechyd a  
diogelwch yn ymwneud  
â safle dofednod



Menter ddofednod  
ar raddfa fechan




Arallgyfeirio i gadw  
dofednod dowdy



## Hyfforddiant

Cafwyd 4 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2019 a mis Medi 2020 gyda 878 achos o hyfforddiant wedi cael eu darparu yn ystod y cyfnod. O'r rhain, gallai 31 ohonynt gael eu hystyried o fewn y sector Organig.

Nifer yr unigolion a  
dderbyniodd hyfforddiant  
o'r Sector Dofednod



Roedd y cyrsiau mwyaf poblogaidd ym mhob thema'n cynnwys:



CYNLLUNIO A  
DATBLYGU BUSNES



RHEOLI CNOFILOD  
AR FFERMYDD

DYFARNIAD LEFEL 3 MEWN  
DEFNYDDIO PLAIEDDIAID YN  
DDIOGEL (PA1) A DEFNYDDIO  
PLAIEDDIAID YN DDIOGEL GAN  
DDEFNYDDIO OFFER LLAW (PA6)

## E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector Dofednod yn cynnwys:

Brechu dofednod



Parasitiaid mewn  
dofednod



Pigo niweidiol mewn  
ieir sy'n dodwy



Rheoli tail dofednod



Am ragor o fanylion am y cyrsiau e-ddysgu, ewch i'r [wefan](http://www.llyw.cymru/cyswiltffermio).



[www.llyw.cymru/cyswiltffermio](http://www.llyw.cymru/cyswiltffermio)